

# Rhyngwladoli yn y sector AB yng Nghymru

Adroddiad terfynol

---

Cyflwynwyd i ColegauCymru gan Ymchwil Arad

*Mai 2021*

Ymchwil Arad  
8 Rhodfa Columbus  
Maes Brigantîn  
Caerdydd CF10 4SD  
029 2044 0552  
[www.arad.wales](http://www.arad.wales)

ymchwil  
arad  
research

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad a methodoleg .....</b>	<b>3</b>
1.1 Cefndir yr ymchwil .....	3
1.2 Nodau a methodoleg .....	3
<b>2. Adolygiad llenyddiaeth a pholisi.....</b>	<b>5</b>
2.1 Polisi ar lefel Cymru.....	5
2.2 Polisi ar lefel y DU .....	7
2.3 Gweithgaredd rhyngwladoli .....	8
2.4 Symudedd myfyrwyr a Brexit.....	10
<b>3. Canfyddiadau'r gwaith maes .....</b>	<b>12</b>
3.1 Cyfrifoldebau a strategaeth .....	12
3.2 Profiadau dysgwyr ac effaith .....	14
3.3 Profiadau'r staff ac effaith.....	18
3.4 Gweithgareddau masnachol.....	20
3.5 Partneriaethau .....	21
3.6 Monitro a rhannu arferion da .....	24
3.7 Y gofynion o ran cymorth yn y dyfodol a gwella rhyngwladoli .....	25
<b>4. Casgliadau ac argymhellion .....</b>	<b>28</b>
4.1 Canolbwyntio ar weithgareddau masnachol a chyfoethogi .....	28
4.2 Effaith ar ddysgwyr a staff .....	28
4.3 Manteision a heriau masnachol .....	29
4.4 Partneriaethau rhyngwladol.....	29
4.5 Cynnydd a chefnogaeth ar gyfer rhyngwladoli yn y dyfodol .....	30
4.6 Argymhellion .....	31
<b>Atodiad: Data ar symudedd staff a myfyrwyr .....</b>	<b>33</b>

# 1. Cyflwyniad a methodoleg

---

Comisiynwyd Arad gan ColegauCymru i ymgymryd â gwaith ymchwil gyda'r sector addysg bellach (AB) yng Nghymru i gefnogi eu gwaith o ddatblygu cynllun rhyngwladoli strategol ar gyfer y sector.

## 1.1 Cefndir yr ymchwil

---

Roedd ColegauCymru yn dymuno ymgymryd â gwaith ymchwil yn y sector AB i:

- ganfod statws presennol rhyngwladoli;
- penderfynu beth sydd angen ei roi ar waith er mwyn datblygu rhyngwladoli ymhellach;
- gwella sut mae'r sector yn cyfleu ei uchelgeisiau rhyngwladol yn y dyfodol i gynulleidfa fyd-eang.

Mae ColegauCymru yn bwriadu ffurfioli ymrwymiad y sector i gydweithredu rhyngwladol drwy ddatblygu cynllun strategol ar gyfer y sector fel bod rhyngwladoli, yn yr hirdymor, yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm AB.

## 1.2 Nodau a methodoleg

---

Canolbwyntiodd yr ymchwil ar nodi:

- Y sefyllfa bresennol mewn colegau AB o ran rhyngwladoli;
- Y sefyllfa o ran polisi yng Nghymru a'r DU;
- Partneriaethau o fewn y sector a allai gefnogi gweithgareddau, strwythurau a phrosesau ar gyfer rhyngwladoli yn y sector;
- Uchelgeisiau'r colegau yn y dyfodol, gan gynnwys eu barn ynghylch sut y gallai ColegauCymru gefnogi'r uchelgeisiau hyn.

Roedd y fethodoleg ar gyfer yr ymchwil hon yn cynnwys arolwg byr o golegau yng Nghymru (ymatebodd 12 o blith 13 o golegau) a chyfweiliadau â staff allweddol mewn 11 o golegau. Cyfrannodd pob coleg yng Nghymru at yr ymchwil drwy o leiaf un o'r dulliau hyn.

Canolbwyntiodd yr arolwg a'r cyfweiliadau ar y themâu canlynol:

- Cynllunio strategol a chyfrifoldeb am weithgaredd rhyngwladol mewn colegau;
- Cyfleoedd cyfoethogi / symudedd myfyrwyr;
- Symudedd staff;
- Gweithgareddau masnachol;
- Partneriaethau rhyngwladol;
- Heriau a phwyntiau dysgu allweddol sy'n gysylltiedig â datblygu gweithgareddau rhyngwladol;
- Effaith gweithgareddau rhyngwladol; a
- Barn ar y cymorth sydd ei angen gan ColegauCymru a sut y gall y sector AB yng Nghymru wella'r ffordd y mae'n ymgysylltu'n rhyngwladol.

Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd â phedwar sefydliad partner a allai o bosibl gefnogi rhyngwladoli yn y sector AB. Canolbwyntiodd y cyfweiliadau hyn ar y cyfleoedd cyfredol a gynigir gan y sefydliadau partner, eu hanes o gydweithio â'r sector AB a chyfleoedd a heriau canfyddedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.

Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd cyfweiliad astudiaeth achos gyda dau fyfyrwr (a'u tiwtor) a oedd wedi cymryd rhan mewn prosiect symudedd rhyngwladol cyn y pandemig Covid.

Yn olaf, cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth a pholisi i ddarparu trosolwg o'r cyd-destun rhyngwladoli ehangach y bydd cynllun strategol ColegauCymru yn cael ei ddatblygu ynddo.

## 2. Adolygiad llywodraeth a pholisi

---

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o bolisi llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU sy'n ymwneud â rhyngwladoli, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio'n rhyngwladol a rôl y sector AB mewn perthynas â rhyngwladoli. Mae hefyd yn rhoi amlinelliad o weithgaredd rhyngwladol sydd wedi bod yn digwydd yn y sector, manteision y gweithgareddau hyn a'r sefyllfa bresennol yng ngoleuni datblygiadau diweddar, megis Brexit.

### 2.1 Polisi ar lefel Cymru

---

Mae polisi rhyngwladoli Cymru wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen *Cymru yn y Byd*<sup>1</sup>, a amlinellodd yr agenda ryngwladol ar gyfer Cymru er mwyn 'sicrhau bod gan Gymru ôl troed cadarn o amgylch y byd'. Yr amcanion a amlinellwyd oedd:

- cryfhau economi Cymru;
- ehangu proffil ac enw da Cymru;
- datblygu a chynnal cysylltiadau dwyochrog ac amlochrog effeithiol;
- cymryd camau pendant i gydweithredu i rannu gwybodaeth ac arfer gorau ac i ddysgu gan gymheiriaid;
- cynyddu dylanwad Cymru ymhlith sefydliadau amlochrog a rhyngwladol priodol;
- cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol;

Ers cyhoeddi *Cymru yn y Byd*, mae'r dirwedd ryngwladol wedi newid yn sylweddol, gan sbarduno gweledigaeth ryngwladol ac iddi ffocws newydd ar gyfer Cymru. Felly, yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Strategaeth Ryngwladol*<sup>2</sup> sy'n amlinellu'r blaenoriaethau presennol mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol a phartneriaethau economaidd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dair uchelgais graidd i Gymru:

- '[c]odi proffil Cymru'n rhyngwladol' drwy adeiladu ar ei henw da fel cenedl greadigol ac arloesol;
- tyfu economi Cymru drwy gynyddu allforion a mewnfuddsoddi, creu swyddi newydd a datblygu technoleg newydd; a
- sefydlu 'Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sylfaen i ymrwymiad Cymru i gynaliadwyedd.

Y bwriad yw y bydd y brand 'Cymru Wales' yn allweddol bwysig wrth gyflawni tair uchelgais graidd Cymru, a ddefnyddir ar gyfer ymgyrchoedd a gwaith marchnata ymhlith amrywiol sectorau, megis y sector addysg uwch i hyrwyddo Cymru fel lle i astudio.

Er gwaethaf diffyg ystyriaeth uniongyrchol ar gyfer addysg bellach, mae'r strategaeth yn amlinellu elfennau sy'n berthnasol i'r sector AB. Efen arbennig o berthnasol yw'r ymrwymiad i gyfnewidfydd myfyrwyr a chyfnewidfydd academiaidd, a fydd yn cefnogi'r uchelgais i dyfu economi Cymru. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymrwymiad i weithio gyda

---

<sup>1</sup> [cymru-yn-y-byd.pdf \(llyw.cymru\)](#)

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/strategaeth-ryngwladol-i-gymru-v1.pdf>

sefydliadau addysg i gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru ac i gefnogi cyfranogiad parhaus myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn rhaglenni cyfnewid. Ceir trafodaeth bellach ar effaith rhaglenni symudedd myfyrwyr yn adran 3.2 isod.

Yn ogystal â'r ymrwymïadau uchod, mae'r strategaeth yn amlinellu pwysigrwydd parhau i 'gydweithio â Fietnam i feithrin ei seilwaith addysgol drwy gyfleoedd hyfforddi, ymchwilio, cydweithredu a chyfnewidfeydd academiaidd.' Yn ogystal, mae'n nodi ymrwymïad i ddatblygu rhaglenni tebyg gyda gwledydd partner eraill.

Yn dilyn Strategaeth Ryngwladol Cymru, cyhoeddwyd cyfres o gynlluniau gweithredu. Mae'r cyhoeddiad cyntaf, *Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n Cael Blaenoriaeth 2020-2025*<sup>3</sup>, yn amlinellu cynllun gweithredu Cymru i ddatblygu perthnasoedd ymhellach â phartneriaid Ewropeaidd a phartneriaid eraill, sef Llydaw, Gwlad y Basg, Fflandrys a Québec. Un cam gweithredu tymor canolig, ymhlith eraill, a amlygwyd yn y cyhoeddiad hwn, sydd â chysylltiad uniongyrchol ag AB, yw'r bwriad i adeiladu ar y perthnasoedd presennol y mae Cymru wedi'u datblygu â sectorau addysgol ac ieuencid yn Llydaw. Gweler adran 3.2 am astudiaeth achos fer ar gyfnewidfa myfyrwyr â choleg yn Llydaw.

Mae ail gynllun gweithredu Cymru, *Cysylltiadau Rhyngwladol drwy Ddiplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Tawel 2020-2025*<sup>4</sup>, yn cydnabod y rôl allweddol y mae myfyrwyr rhyngwladol yn ei chwarae wrth gyfoethogi amrywiaeth ddiwylliannol Cymru ac i economi allforio Cymru. Felly mae'r cynllun yn tynnu sylw at ymrwymïad i barhau i gefnogi hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio yn rhyngwladol. Yn y cynllun hwn hefyd rhoddir ystyriaeth i symudedd myfyrwyr. Cam gweithredu allweddol mewn perthynas â symudedd myfyrwyr yw rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad rhyngwladol:

---

*'Byddwn yn parhau i roi cyfleoedd i'n pobl ifanc gael profiad rhyngwladol drwy rwydwaith Seren a 'Cymru Fyd-eang Darganfod', ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o'r Unol Daleithiau, Fietnam, India, a'r UE astudio yng Nghymru drwy ysgoloriaethau fel Gilman, Fulbde, Chevening a Rhaglen Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang.'*

---

Mae trydydd cynllun gweithredu Cymru, *Cymru ac Affrica 2020-2025*<sup>5</sup>, yn manylu ar bartneriaethau a gwaith a wnaed gyda rhaglen Cymru ac Affrica a'r blaenoriaethau ar gyfer 2020-2025. Menter sy'n arbennig o berthnasol i symudedd myfyrwyr, a amlinellir yn y cynllun, yw'r rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol. Cyn y pandemig Covid-19, roedd y rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn darparu lleoliadau 8 wythnos yn Lesotho, Uganda neu Namibia. Mae'r cynllun yn manylu ar y flaenoriaeth i ail-lansio ac ehangu'r fenter, yn ogystal ag ymchwilio i'r defnydd o TG i wella lleoliadau.

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/perthnasoedd-a-rhwydweithiau-rhanbarthol-syn-cael-blaenoriaeth.pdf>

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/cysylltiadau-rhyngwladol-drwy-ddiplomyddiaeth-gyhoeddus-chymell-tawel.pdf>

<sup>5</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/cymru-ac-affrica.pdf>

Mae strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer rhyngwladoli yn cyfrannu at yr uchelgeisiau ehangach a nodir mewn amrywiol strategaethau cenedlaethol. Mae'n cyfrannu at y nod o sicrhau bod Cymru yn 'wlad uchelgeisiol a rhyngwladol' fel y nodwyd yn *Symud Cymru Ymlaen* (rhaglen lywodraethu 2016-21)<sup>6</sup>. Mae hefyd yn cyd-fynd ag elfennau allweddol *Ffyniant i Bawb*, (Strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r rhaglen ar gyfer ymrwymadau'r llywodraeth)<sup>7</sup>, sef y syniadau 'os ydym am weld Cymru yn ffynnu, mae angen pobl greadigol, sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu' ac ymchwil ac arloesedd llwyddiannus sy'n cael 'eu harwain gan bobl sydd â gorwelion eang a'u golygon ar y byd ehangach'.

## 2.2 Polisi ar lefel y DU

---

Ar lefel y DU, mae rhyngwladoli yn cynyddu o ran pwysigrwydd i'r sector addysg. Mae hyn yn amlwg drwy *strategaeth addysg ryngwladol* (2019)<sup>8</sup> Llywodraeth y DU, a nododd ddwy uchelgais allweddol:

- cynyddu allforion addysg i £35 biliwn y flwyddyn;
- cynyddu nifer y myfyrwyr addysg uwch rhyngwladol sy'n astudio yn y DU i 600,000 y flwyddyn.

Mae un adran yn y strategaeth yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol, sgiliau a choleg. Mae'r camau gweithredu a nodwyd yn pwysleisio ymrwymiad i annog cyfran fwy o sefydliadau sgiliau'r DU i ystyried cyflwyno eu harlwy yn rhyngwladol ac i barhau i ddefnyddio cysylltiadau rhwng llywodraethau â'i gilydd a rhwng llywodraethau a diwydiant i hyrwyddo cynnig sgiliau'r DU. Nod y camau gweithredu hyn felly yw cefnogi sector sgiliau'r DU i ddarparu ei gynnydd yn rhyngwladol

Yn 2021, cyhoeddwyd diweddariad i'r Strategaeth Addysg Ryngwladol<sup>9</sup>, sy'n canolbwyntio ar gefnogi adferiad a sbarduno twf yn dilyn yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector addysg o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Mae'r diweddariad yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r ddwy uchelgais allweddol, a nodwyd yn strategaeth 2019, mewn perthynas ag allforion addysg a lletya myfyrwyr rhyngwladol.

O ran y sector addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol, mae diweddariad 2021 yn manylu ar sut mae Adran Masnach Ryngwladol (DIT) Llywodraeth y DU wedi gweithio, ac yn parhau i weithio, gydag aelodau o'r British Council a Phartneriaeth Sgiliau'r DU i hyrwyddo sector addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol (TVET) y DU a darparu cyfleoedd ymarferol i sefydliadau'r DU. Mae'r cynnydd hyd yma wedi cynnwys helpu'r sector i ddatblygu cynigion pwrpasol i gyd-fynd â gofynion gwledydd eraill; cefnogi colegau

---

<sup>6</sup> [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf)

<sup>7</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf>

<sup>8</sup>

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/799349/International\\_E\\_EDUCATION\\_Strategy\\_Accessible.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/799349/International_E_EDUCATION_Strategy_Accessible.pdf)

<sup>9</sup>

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/958990/International-E\\_EDUCATION-Strategy-2021-Update.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/958990/International-E_EDUCATION-Strategy-2021-Update.pdf)

a darparwyr sydd wedi ceisio datblygu partneriaethau mewn gwledydd eraill; a hyrwyddo prentisiaethau drwy offeryn meincnodi rhyngwladol y British Council.

Un datblygiad nodedig a amlinellir yn y diweddariad hwn yn 2021 yw addewid Llywodraeth y DU i wneud y canlynol:

*'permitting international students to apply to study a new course in the UK once they have completed their first course, or to apply under the new Skilled Worker route, regardless of the level of study or the education institution.'*

Bydd yr addewid hwn yn allweddol i wella llwybrau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar bob lefel astudio yn y DU, a thrwy hynny gyfrannu at un o'r ddwy brif uchelgais yn strategaeth addysg ryngwladol Llywodraeth y DU.

### 2.3 Gweithgaredd rhyngwladoli

---

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithgareddau rhyngwladoli a wneir gan y sector addysg yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr, athrawon, amgylcheddau dysgu a chymunedau lleol. Mae rhaglenni symudedd rhyngwladol myfyrwyr a staff wedi bod yn ganolog i weithgaredd rhyngwladoli yn y sectorau AB ac AU. Mae rhaglenni symudedd i fyfyrwyr, fel cyfnewidfeydd rhyngwladol, yn gwella'n sylweddol siawns dysgwyr o ragori yn eu meysydd. Canfu adroddiad gan Universities UK International<sup>10</sup>, a edrychodd ar ddata cyrchfannau ymadawyr carfan 2016-17 AU, fod cyfradd diweithdra is ymysg graddedigion a gymerodd ran mewn rhaglenni symudedd o gymharu â'r rhai na wnaethant gymryd rhan mewn rhaglenni o'r fath (2.3% ar gyfer unigolion symudol o gymharu â 4.2% o'u cyfoedion nad ydynt yn symudol).

Mae'r DU wedi cymryd rhan yn rhaglen Erasmus yr UE, a sefydlwyd ym 1987, ers blynyddoedd lawer. Mae'r cynllun yn cynnig cyfnewidfeydd myfyrwyr yn ogystal â chysylltiadau ag ysgolion, profiad gwaith a phrentisiaethau ledled Ewrop. Canfu arolwg o ddysgwyr AB yng Nghymru sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Erasmus+ fod y cynllun yn eu cefnogi i ehangu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol ynghyd â gwella eu sgiliau technegol, eu hyder a'u goddefgarwch o wahanol ddiwylliannau<sup>11</sup>.

Mae'r rhaglen Erasmus+ hefyd wedi darparu cyfleoedd rhyngwladol i staff mewn sefydliadau AB yng Nghymru. Er enghraifft, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi galluogi darlithwyr, rheolwyr ac arweinwyr colegau ledled Cymru i gymryd rhan mewn gwahanol gyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Ffindir, Gwlad y Basg, Catalonia, Denmarc a'r Eidal. Mae hyn wedi galluogi staff i hyfforddi ochr yn ochr â chyfoedion mewn rhannau eraill o Ewrop a chreu cysylltiadau newydd â hwy.

Yn ôl yr arolwg rhyngwladol blynyddol a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Colegau<sup>12</sup>, y corff cenedlaethol ar gyfer y sector AB yn Lloegr, rhaglen Erasmus+ oedd y math mwyaf

---

<sup>10</sup> <https://www.universitiesuk.ac.uk/International/Documents/2019/Gone-Intl-2019.pdf>

<sup>11</sup>

<https://rhyngwladol.colegau.cymru/image/publications/briefings/Erasmus%20plus/Erasmus%20Plus%20briefing%20WEL.pdf>

<sup>12</sup> <https://www.aoc.co.uk/sites/default/files/AoC%20International%20Survey%20Report%202020.pdf>



cyffredin o weithgaredd rhyngwladol a gynhaliwyd gan golegau ledled y DU yn 2019/20. Recriwtio myfyrwyr oedd y gweithgaredd rhyngwladol mwyaf cyffredin ond un. Yn ogystal â hynny, cynhaliodd ychydig yn llai na hanner y colegau a ymatebodd weithgaredd rhyngwladol ar ffurf rhaglenni hyfforddiant proffesiynol neu alwedigaethol. O ran y gwledydd y nodwyd eu bod bwysicaf i weithgaredd rhyngwladol colegau, cyfeiriodd y gyfran fwyaf o golegau at Tsieina.

Er bod yr adroddiad yn cydnabod y bydd y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar weithgareddau rhyngwladol, mae hefyd yn nodi bod colegau'n parhau i fod yn ymrwymedig i ailafael yn y gweithgareddau hyn cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i wneud hynny. Dylid nodi, er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Loegr, ymatebodd 4 coleg o Gymru a ColegauCymru i'r arolwg hwn ar ran y sector.

Fel y corff cynrychioliadol ar gyfer colegau AB yng Nghymru, mae ColegauCymru yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o drefnu cyfleoedd rhyngwladol i staff a dysgwyr yn y sector AB. Mae ColegauCymru yn cefnogi staff addysg bellach i ymgymryd â hyfforddiant a datblygu partneriaethau â sefydliadau dramor, ac yn helpu dysgwyr i ymgymryd â phrofiad gwaith mewn sefydliadau ledled Ewrop. Mae ColegauCymru wedi bod yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o reoli ceisiadau consortiwm Erasmus+ ar gyfer y sector AB.

Sefydliad allweddol arall sy'n ymwneud â chefnogi mynediad at gyfleoedd rhyngwladol yw'r British Council, sydd wedi rheoli'r Rhaglen Addysg Ryngwladol a Ariennir gan Lywodraeth Cymru. Nodau ac amcanion y rhaglen hon oedd:

- rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i unigolion er mwyn iddynt gyfrannu mewn cymuned fyd-eang
- cynyddu ymwybyddiaeth, agweddau ac ymateb i ddysgu byd-eang
- cynyddu cydweithrediad parhaus rhwng Cymru a gwledydd eraill
- gwella lefelau addysgol a phartneriaethau cynhyrchiol
- cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc yng Nghymru

Mae colegau eu hunain yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod gan eu dysgwyr a'u staff fynediad at gyfleoedd rhyngwladol. Un enghraifft, a luniwyd fel astudiaeth achos gan y British Council, yw gweithgaredd a gynhelir gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r gweithgaredd rhyngwladol a wneir gan y coleg yn eang ei gwmpas. Mae'n cynnwys recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i gyrsiau amser llawn a rhan-amser y coleg ac i ysgolion haf a gaeaf; partneriaethau rhyngwladol strategol; myfyrwyr a staff yn cyfnewid ymweliadau drwy ysgolion partner ac Erasmus+; a theithiau tramor nodedig i ddysgwyr. Caiff staff a dysgwyr eu hannog i gymryd rhan yn y cyfleoedd rhyngwladol y mae'r coleg yn eu cynnig, oherwydd y manteision a ddaw yn eu sgil.<sup>13</sup>

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth wedi dangos, er bod y rhaglen Erasmus+ wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o ddarparu cyfleoedd rhyngwladol i fyfyrwyr a staff, mae gweithgareddau rhyngwladol eraill hefyd wedi bod yn digwydd. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr a staff, yn ogystal â chyfrannu at *Strategaeth Ryngwladol* Cymru.

<sup>13</sup> <https://www.britishcouncil.org/education/skills-employability/success-stories/internationalisation-further-education/cardiff-and-vale-college-bringing-added-value>

## 2.4 Symudedd myfyrwyr a Brexit

---

Mae maint effaith Brexit ar symudedd myfyrwyr yn ansicr. Fodd bynnag, mae digwyddiadau hyd yn hyn yn dangos newidiadau sylweddol i'r cyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael i fyfyrwyr. Yn benodol, mae'r ffaith nad yw'r DU bellach yn rhan o'r cynllun Erasmus+ yn golygu bod y DU wedi rhoi'r gorau i ymwneud â chynllun sydd wedi dod â llawer o fanteision i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ynddo (gweler adran 3.2). Fodd bynnag, yng ngoleuni hyn, bu galwadau am gynllun olynol sy'n galluogi dysgwyr a sefydliadau addysg i elwa o gyfleoedd rhyngwladol tebyg i'r rhai a gynigir gan Erasmus+.

Er enghraifft, mae ColegauCymru wedi nodi:

---

*'Os nad yw'n bosibl cymryd rhan lawn yn Erasmus+, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun amgen i sicrhau y gall dysgwyr o Gymru elwa o hyd o'r cyfleoedd a'r datblygiad a oedd ar gael i genedlaethau cynharach o ddysgwyr.'*<sup>14</sup>

---

Yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd ac i dynnu'n ôl o'r cynllun Erasmus+, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd y cynllun Turing newydd yn cael ei gyflwyno<sup>15</sup>. Bydd y cynllun £100 miliwn yn cynnig cyfle i oddeutu 35,000 o fyfyrwyr mewn colegau, prifysgolion ac ysgolion ledled y DU astudio a gweithio dramor o fis Medi 2021. Un gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y cynllun Turing newydd hwn ac Erasmus+ yw y bydd yn rhaglen fyd-eang. Fodd bynnag, ni fydd yn cynnig lleoliadau i staff addysgu a staff colegau fel y gwna'r rhaglen Erasmus+. Mae eithrio'r elfen hon o'r rhaglen yn dangos nad yw cynllun Turing yn mynd i'r afael yn llawn â'r galwadau am raglen olynol sy'n cynnig yr un cyfleoedd ag Erasmus+.

Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru Raglen Gyfnewid Ryngwladol i Gymru ar gyfer Dysgu, a fydd<sup>16</sup>:

- yn galluogi cyfleoedd cyfnewid dwyochrog (boed yn seiliedig ar symud yn gorfforol rhwng y ddau sefydliad neu gydweithrediad o bell) rhwng sefydliadau addysgol a hyfforddi yn ogystal â lleoliadau gwaith ieuencid yng Nghymru ac yn rhyngwladol;
- yn cefnogi, cyn belled ag y bo modd, yr ystod gyfan o weithgareddau sydd wedi bod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru o dan raglen Erasmus+ yr UE, 2014 - 2020;
- yn adeiladu ar lwyddiant Cymru Fyd-eang wrth ddatblygu cysylltiadau â gwledydd sy'n cael blaenoriaeth ledled y byd, gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Fietnam ac India, a chefnogi ystod uchelgeisiol o ysgoloriaethau a fydd yn denu'r myfyrwyr gorau a disgleiriaf o bob cwr o'r byd i astudio yng Nghymru;

---

14

<https://rhyngwladol.colegau.cymru/image/publications/briefings/Erasmus%20plus/Erasmus%20Plus%20briefing%20WEL.pdf>

<sup>15</sup> <https://www.gov.uk/government/news/new-turing-scheme-to-support-thousands-of-students-to-study-and-work-abroad>

<sup>16</sup> [https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rhaglen-gyfnewid-ryngwladol-i-gymru-ar-gyfer-dysgu?\\_ga=2.208756434.1957077737.1620033752-1413956957.1614005623](https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rhaglen-gyfnewid-ryngwladol-i-gymru-ar-gyfer-dysgu?_ga=2.208756434.1957077737.1620033752-1413956957.1614005623)

- yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r ystod ehangaf o ddysgwyr a phobl ifanc, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a nodweddion gwarchoddedig;
- yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol, yn arbennig o ran caniatáu cyfleoedd cyfnewid byrrach sy'n cynnwys addysg uwch;
- yn cefnogi'r gwaith o feithrin gallu er mwyn hwyluso cyfranogiad eang yn y Rhaglen;
- yn cefnogi cyfleoedd cyfnewid arbrofol, o bosibl, er mwyn cyd-drefnu partneriaethau ymchwil rhyngwladol;
- yn cydweddu'n agos â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

Bydd y rhaglen yn dechrau yn y flwyddyn academaidd 2022/2023, yn parhau tan 2027 ac yn cael ei chefnogi gan fuddsoddiad o £65 miliwn. Y gobaith yw y bydd y rhaglen yn sicrhau bod cyfleoedd symudedd rhyngwladol a'u manteision yn parhau. Wrth wneud hynny, bydd yn lleihau lefel yr ansicrwydd ar weithgareddau rhyngwladol Cymru mewn AB a achosir gan effeithiau Brexit a phenderfyniad y DU i dynnu'n ôl o'r rhaglen Erasmus+.

### 3. Canfyddiadau'r gwaith maes


Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o waith maes a wnaed gyda cholegau, partneriaid a dysgwyr.

#### 3.1 Cyfrifoldebau a strategaeth

O blith y 12 coleg a ymatebodd i'r arolwg, nododd 7 fod ganddynt strategaeth ryngwladol, nododd 4 nad oedd ganddynt strategaeth o'r fath ac roedd 1 yn ansicr. Darparodd y colegau hynny sydd â strategaeth ryngwladol grynodedb byr o'u hamcanion, a oedd yn amrywio o ran ffocws rhwng colegau; mae rhai yn blaenoriaethu gweithgaredd rhyngwladol masnachol tra bod eraill yn canolbwyntio ar gyfoethogi dysgwyr, neu'r ddau. Yn bennaf, nododd y colegau hynny nad oes ganddynt strategaeth nad oedd gweithgaredd rhyngwladol yn ddigon o flaenoriaeth i'r coleg er mwyn iddo ddatblygu strategaeth ryngwladol benodol.

Disgrifiwyd darlun cymysg tebyg gan randdeiliad AB ehangach a gafodd ei gyfweld fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, gyda rhai colegau yn Lloegr yn canolbwyntio ar yr agenda gyfoethogi, ac eraill wrthi'n recriwtio myfyrwyr tramor ac yn ymgysylltu ag ystod o bartneriaid rhyngwladol ar ddatblygu'r cwricwlwm, hyfforddi'r hyfforddwr, cymwysterau ac asesu.

**Ffigur 1: A oes gan golegau strategaeth ryngwladol**



Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=12

Ar gyfer 4 coleg, elfen fasnachol rhyngwladoli yw'r prif sbardun ar gyfer llunio strategaethau rhyngwladol. Mae'r strategaethau hyn wedi'u targedu i raddau helaeth at recriwtio myfyrwyr tramor, yn bennaf mewn gwledydd fel Tsieina (gan gynnwys Hong Kong) ac India, drwy gyrsiau a gyflwynir yn y gwledydd hyn ac a ddilysir gan y coleg neu o ran recriwtio myfyrwyr i astudio yn y DU. Mae'r strategaethau hyn yn tueddu i gael cefnogaeth uwch reolwyr gyda dull 'o'r brig i lawr' o weithredu ar ryngwladoli. Nododd cynrychiolwyr y colegau bwysigrwydd yr ymgysylltu rhyngwladol hwn i incwm eu priod golegau a bod strwythurau canolog wedi'u rhoi ar waith i gefnogi hyn.

---

*'Rydym yn anarferol fel coleg yn yr ystyr bod gennym dîm o saith yn gweithio'n gyfan gwbl ar yr agwedd fasnachol ar ryngwladoli. Mae'r tîm masnachol yn cynnwys ffocws staff ar farchnata, perthnasoedd ag asiantau, cydymffurfio â rheolau fisa, y gwaith yn Tsieina, gofal bugeiliol. Mae datblygu dysgu ar-lein hefyd wedi bod yn ffocws i ni yn ogystal ag ymgyrch i ddenu myfyrwyr Ewropeaidd i Gymru.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

Mae'r colegau hyn yn nodi bod rhyngwladoli yn uchel ar yr agenda, yn cael ei gefnogi gan benaethiaid a thimau uwch-reolwyr a Llywodraethwyr, ac yn cynnwys strwythurau rheoli a chyflawni i'w ymgorffori o fewn nodau'r colegau. Mae un coleg yn datblygu hyrwyddwyr rhyngwladol ar draws y sefydliad a fydd yn cwrdd fel fforwm rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arfer da ymhlith staff - staff rheoli ac addysgu fel ei gilydd, sef model sy'n seiliedig ar weithgareddau tebyg mewn sefydliadau addysg uwch. Nod y prosesau hyn yw cefnogi ymwybyddiaeth y staff a chyfathrebu am weithgareddau rhyngwladol ar draws y coleg.

Nododd coleg arall ei fod yn canoli prosesau ac adnoddau drwy ei swyddfa ryngwladol, gan gyfuno gweithgareddau cyfoethogi masnachol a dysgwyr drwy raglenni cyfnewid rhyngwladol, symudedd dysgwyr, cydymffurfiaeth, recriwtio myfyrwyr a derbyniadau. Nod hyn yw osgoi dyblygu a chaniatáu i'r coleg integreiddio a hyrwyddo gweithgareddau rhyngwladol â nodau a strategaethau cyffredinol y coleg. Mae gan golegau eraill rolau staff sy'n gysylltiedig â meysydd incwm allweddol fel cyllid yr Undeb Ewropeaidd e.e. drwy Erasmus+ ac mae'r rhain yn gysylltiedig â staff mewn meysydd fel cydymffurfiaeth a gweinyddiaeth, gan hyrwyddo dull coleg cyfan o ymgysylltu'n rhyngwladol.

Er mai rhesymau masnachol yw'r prif ffocws i'r colegau hyn, maent hefyd serch hynny yn cefnogi ystod o weithgareddau cyfoethogi. Mae'r rhain wedi'u cynllunio ac yn cael eu darparu i raddau helaeth drwy fenter penaethiaid cyfadrannau sydd naill ai'n arwain partneriaethau neu weithgareddau penodol neu'n rhan o fentrau rhyngwladol ehangach a drefnir gan ColegauCymru a sefydliadau eraill.

Mae colegau eraill yn canolbwyntio llawer mwy ar gyfoethogi a'r '*awydd i ehangu gorwelion*' dysgwyr. Nododd rhai cynrychiolwyr nad oes gan eu priod golegau y seilwaith, y gallu na'r ysgogiad strategol gan y Tîm Uwch-reolwyr i ddatblygu gweithgareddau masnachol. Mae'r colegau hyn yn tueddu i fod â dulliau mwy ad hoc o ddatblygu prosiectau rhyngwladol gyda staff weithiau mewn rolau sy'n cael eu rhannu rhwng gwaith masnachol a gwaith cyfoethogi, a all arwain at ganfyddiad o ddiffyg gweithgareddau cydgysylltiedig a dulliau gweithredu cynaliadwy. Felly mae'r colegau hyn yn aml yn dibynnu ar fentrau allanol a arweinir gan sefydliadau fel ColegauCymru i ymgysylltu'n rhyngwladol.

Nododd sawl un o'r cynrychiolwyr colegau hyn fod pocedi o arfer da mewn rhai cyfadrannau ac roeddent yn teimlo y gallent wneud mwy i ehangu'r budd y tu hwnt i ddysgwyr penodol fel rhan o ddull a fyddai'n cwmpasu'r coleg cyfan. Nodwyd awydd cynyddol ar draws cyfadrannau i gefnogi cyfleoedd i fyfyrwyr brofi elfennau rhyngwladol o ddysgu a chefnogi dinasyddiaeth fyd-eang ynghyd â datblygu staff hefyd, gan gysylltu ag un o amcanion allweddol strategaeth Cymru yn y Byd Llywodraeth Cymru.

---

*'Roeddem eisiau strategaeth newydd ar gyfer y coleg a oedd yn canolbwyntio ar gyfoethogi'r dysgwyr a'r staff yn gyntaf ac yna ar yr elfen fasnachol. Mae ffocws ar ddatblygu ethos rhyngwladol yn y cwricwlwm i hyrwyddo potensial dysgwyr ar gyfer symudedd a chodi dyheadau i wneud elfen o brofiad gwaith dramor - mae ansawdd lleoliad yn agwedd allweddol ar hyn.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

Ymhlith yr heriau y mae colegau yn eu hwynebu i ehangu eu darpariaeth a'u hymgysylltiad rhyngwladol mae gofynion fisa newydd ar gyfer myfyrwyr, Brexit, y pandemig COVID-19 a'r ffaith bod trefnu gweithgaredd rhyngwladol yn dreth ar adnoddau. Tynnodd un cynrychiolydd coleg sylw at y gofyniad i ganolbwyntio mwy ar fyfyrwyr cartref yn hytrach na myfyrwyr rhyngwladol ac mai dyma oedd sail eu darpariaeth bresennol.

### **3.2 Profiadau dysgwyr ac effaith**

---

Y rhaglen allweddol ar gyfer dysgwyr galwedigaethol dros y blynyddoedd diwethaf fu Erasmus+ gyda'r mwyafrif yn nodi rhywfaint o ymgysylltiad â'r rhaglen. Mae cyfleoedd Erasmus+ yn cael eu cylchredeg a'u hysbysebu i bob dysgwr galwedigaethol yn y colegau hyn a dywedodd cynrychiolwyr fod y cyrsiau dan sylw wedi cynnwys peirianeg, arlwyio a lletygarwch, gwallt a harddwch, gweinyddu busnes, celf a dylunio, chwaraeon, cyfrifiaduron ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Gall ymgysylltu â'r rhaglen gael ei ysgogi gan bartneriaethau hanesyddol, diddordebau arweinwyr cyrsiau a chysylltiadau â strategaethau cyfoethogi ehangach colegau. Mae colegau hefyd yn manteisio ar gefnogaeth ColegauCymru i ddatblygu gweithgareddau consortiwm. Mae'r gefnogaeth hon wedi cynnwys dod o hyd i bartneriaid, gydag un cynrychiolydd coleg yn nodi na allent fod wedi gwneud cymaint nac ehangu mor gyflym hebddo. Nododd un arall fod y dull consortiwm a hyrwyddir gan ColegauCymru yn arbennig o effeithiol i golegau sydd â llai o brofiad o ymgysylltu rhyngwladol neu'r rhai nad oes ganddynt y capasiti na'r strategaeth gyffredinol i ymgysylltu.


Nododd rhai cynrychiolwyr colegau fod cyfadrannau eraill hefyd yn cynnal ymweliadau rhyngwladol nad ydynt yn gysylltiedig ag Erasmus+. Eto, gall hyn ddibynnu ar gysylltiadau hanesyddol â phartneriaid, prosiectau cyfnewid blaenorol a chefnogaeth i gyfoethogi dysgwyr e.e. mewn un coleg mae teithio a thwristiaeth yn casglu tystiolaeth ar gyfer eu cymhwyster dramor, tra bod dysgwyr mewn lletygarwch a gweinyddiaeth fusnes hefyd yn mynd dramor yn rheolaidd. Mae gan goleg arall gysylltiadau hirsefydlog â Norwy ar gyfer cyrsiau ar ddulliau adeiladu cynaliadwy, ac mae ei ddysgwyr iechyd a harddwch yn mynd i Sbaen. Mewn un coleg, nid dim ond myfyrwyr galwedigaethol sy'n cymryd rhan gan fod myfyrwyr Safon Uwch yn ymweld ag ysgol y coleg yn Tsieina, aeth y grŵp celf a dylunio i ysgol bartner ym Mharis ac aeth yr adran astudiaethau ffilm i Sbaen.

Mae colegau fel arfer yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn i ddysgwyr pan fyddant yn cofrestru ac yn tynnu sylw at y manteision a'r cynnydd y gallant ei wneud. Mae colegau'n defnyddio proses ymgeisio agored ar gyfer dysgwyr sydd eisiau cymryd rhan mewn cyfleoedd tramor,

sy'n cynnwys cyfweiliadau a chyflwyniad ynghylch eu rhesymau dros gymryd rhan; proses yr ystyriwyd bod ganddi fanteision i ddysgwyr o ran eu sgiliau cyfathrebu a chyflwyno.

Mae Ffigur 2 isod yn dangos nifer y colegau a nododd eu bod yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ac iddynt elfen ryngwladol. Fel y trafodir uchod, Erasmus+ yw'r prif ddull o ddarparu cyfleoedd rhyngwladol i ddysgwyr ac mae colegau'n tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr galwedigaethol. Cyflwynir data ar nifer y dysgwyr sy'n elwa o'r gweithgareddau hyn yn yr Atodiad.

**Ffigur 2: Nifer y colegau sy'n darparu gweithgareddau rhyngwladol i staff yn ystod y flwyddyn academaidd**



Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=12

Mae'r manteision i ddysgwyr yn eang. Tynnodd cynrychiolwyr y colegau sylw arbennig at yr effaith gadarnhaol ar hyder, sgiliau cyfathrebu a thwf personol dysgwyr yn ystod eu lleoliadau rhyngwladol. Adroddir hefyd am welliannau mewn sgiliau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cyrsiau o'u dewis. Tynnodd cynrychiolwyr y colegau sylw at enghreifftiau megis dysgu am wahanol ffyrdd o weithio ym maes peirianeg neu arlwy, datblygu sgiliau sector-benodol, a datblygu sgiliau meddal fel datrys problemau a dadansoddi. Mae mwy o ddealltwriaeth ryngddiwylliannol yn nodwedd bwysig arall sy'n deillio o'r cyfnewidfeydd, gydag un coleg yn nodi manteision systemau cyfeillio gyda cholegau partner i gefnogi integreiddio.

*'Nid yw rhai o'r dysgwyr wedi bod mor bell â Chaerdydd hyd yn oed, felly mae'n brofiad anhygoel iddyn nhw. Maen nhw'n aml yn dod o ardaloedd difreintiedig ac mae eu hyder yn cynyddu'n aruthrol. Maen nhw'n dal eu gafael yn eu lleoliad gwaith, maen nhw'n dysgu wrth weithio, gan feithrin y ddisgyblaeth, y meddylfryd a'r sgiliau a'r strwythur sy'n benodol i'r swydd,*

*gallwch weld y newid ynddyn nhw. Mae'n drawsnewidiol ac yn rhoi i ddisgwyr gyfle na fyddent byth yn gallu ei fforddio fel arall.'*

## **Cynrychiolydd SAB**

---

Adroddwyd bod rhai manteision o ran dysgu iaith dramor fodern ond mae'r rhain yn fach ar y cyfan ac roedd y rhanddeiliaid o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi sgiliau iaith cyn, yn ystod ac ar ôl rhaglenni cyfnewid er mwyn gwella profiadau dysgwyr. Mae ambell goleg wedi defnyddio ei staff ieithoedd tramor modern neu gyn-fyfyrwyr y coleg i ddarparu sesiynau blasu, fodd bynnag, nid dyma'r norm ym mhob coleg ar hyn o bryd. Mae cael gwared ar Fagloriaeth Cymru o hyfforddiant galwedigaethol hefyd wedi arwain at ddiffyg cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith neu ar gyfer dysgu iaith yn ystyrlon.

Tynnodd sawl coleg sylw hefyd at fanteision dwyochredd, gyda dysgwyr sy'n dod i Gymru i astudio yn dod ag ieithoedd newydd a syniadau'n ymwneud â chyfnewidfeydd diwylliannol gyda nhw a chael eu lletya yn eu cymunedau lleol. Daw rhai o'r dysgwyr hyn drwy Erasmus+ a rhai drwy brosiectau masnachol mewn pynciau; er enghraifft, mewn un coleg mae nifer fach o ddysgwyr yn astudio gweinyddiaeth fusnes neu iechyd a gofal cymdeithasol mewn partneriaeth â choleg yn Nenmarc. Nodwyd hefyd bod llawer o ddysgwyr rhyngwladol sy'n dod i golegau Cymru yn tueddu i astudio Safon Uwch yn hytrach na chymryd y llwybr galwedigaethol, gan eu bod eisiau cael mynediad i system addysg uwch y DU.

---

*'Mae'r myfyrwyr yn cyfrannu llawer, mae'n wych clywed ieithoedd eraill yn cael eu siarad yn y coleg. Maen nhw hefyd yn weithgar iawn gydag allgymorth cymunedol, gan helpu i drefnu teithiau i safleoedd fel Lourdes, y gaplaniaeth yn ogystal â chefnogi gweithgareddau cwricwla ychwanegol fel menter, maen nhw'n arloesol ac yn egniol.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

Er gwaethaf y manteision hyn, mae nifer o heriau'n bodoli o ran hyrwyddo cyfnewidfeydd i ddysgwyr. I rai colegau, mae datblygu profiadau rhyngwladol yn gofyn am ormod o allu ac ystyrir bod y rheolaeth a'r logisteg yn rhy gymhleth. Mae capasiti a phryderon ynghylch iechyd a diogelwch dysgwyr a staff yn rhwystrau, gyda rhai cynrychiolwyr yn nodi na fydd rhai dysgwyr erioed wedi bod dramor o'r blaen ac y bydd angen sicrwydd arnyn nhw a'u teuluoedd. Cyfeiriwyd at ofynion y cwricwlwm hefyd fel rhwystr, gyda diffyg hyblygrwydd a phryderon ynghylch colli amser addysgu. Serch hynny, nododd rhai cynrychiolwyr colegau, ar ôl mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, fod y staff yn fwy agored i weithgareddau ymgysylltu rhyngwladol.

---

*'Gwelodd y staff fod llawer o waith papur yn gysylltiedig â symudedd myfyrwyr. Ar ôl i'r swyddog cydymffurfio a gweinyddu gymryd y gwaith hwnnw oddi arnynt, buan iawn y gwnaeth y staff ei gefnogi. Mae athrawon amser llawn fel arfer yn rhy brysur ar gyfer y logisteg ond*



*roeddent yn fwy parod i'w dderbyn ar ôl i'r gwaith gweinyddol gael ei gymryd oddi arnynt.'* **Cynrychiolydd SAB**

*'Gall ymweliadau rhyngwladol gynnig cyfle i fyfyrwyr ymestyn a chael ei herio, gan adael iddynt weld sut mae pethau'n gweithio'n ymarferol, maen nhw'n wych i fyfyrwyr difreintiedig na fyddent fel arall yn cael cyfleoedd o'r fath i ehangu eu gorwelion.'* **Cynrychiolydd SAB**

*'Mae rhyngwladoli yn cyfoethogi a dyna yw ein hanfod fel coleg. Ceir dimensiwn cyflogadwyedd hefyd wrth i fyfyrwyr cartref sy'n ymgysylltu â myfyrwyr tramor feithrin gwell dealltwriaeth o sectorau byd-eang a fydd yn helpu pan fyddant yn gweithio i gwmnïau rhyngwladol yn y dyfodol. Mae rhyngwladoli hefyd yn helpu hyder dysgwyr cartref, y mae rhai ohonynt wedi dod i'r coleg yn ansicr beth i'w wneud nesaf neu ar ôl cael profiad negyddol yn yr ysgol.'* **Cynrychiolydd SAB**

### **Astudiaeth achos**

Cafodd Colegau Cymru gyllid Diogelu Cysylltiadau Cymru yn y Dyfodol gan Lywodraeth Cymru i dreialu trefniadau symudedd wythnos o hyd yn Llydaw ar gyfer 20 o ddysgwyr galwedigaethol o bum coleg yng Nghymru. Cefnogodd Colegau Cymru a'r Cyngor Rhanbarthol yn Llydaw y gwaith o ddatblygu partneriaethau rhwng y colegau yng Nghymru a'u cymheiriaid yn Llydaw yn y meysydd cwricwlwm canlynol: Peirianeg Forol, Lletygarwch ac Arlwy, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant ac Amaethyddiaeth. Ymwelodd tiwtoriaid o Gymru â'r colegau yn Llydaw ym mis Ionawr/Chwefror 2020 er mwyn cynllunio ar gyfer ymweliadau'r dysgwyr. Yn anffodus, oherwydd Covid-19, dim ond un grŵp o ddysgwyr a ymwelodd.

Clywodd y coleg fod cyllid ar gael i gynnal prosiect pilot cyfnewid bach yn Llydaw. Roedd y prosiect yn cynnwys mynd â phedwar dysgwr a oedd yn astudio Arlwy a Lletygarwch (Lefel 3 a Lefel 2) i goleg partner yn Llydaw. Esboniodd y tiwtor fod y coleg eisoes yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr drwy Erasmus+ a rhaglen Charles de Gaulle, felly roeddent yn ymwybodol o fanteision gweithgareddau rhyngwladol. Esboniodd y dysgwyr eu bod eisieu datblygu gwybodaeth ddyfnach am ddulliau coginio eraill, ynghyd â gweld sut mae'r diwydiant yn gweithredu mewn gwahanol wledydd a dysgu sgiliau newydd.

Hwn oedd y tro cyntaf i'r dysgwyr dreulio amser oddi wrth eu teuluoedd, a rhoddodd yr ymweliad gyfle iddynt fod yn annibynnol. Er bod y dysgwyr yn nerfus i ddechrau, buan iawn y gwnaethant ddysgu oddi wrth ddysgwyr eraill ac roedd y coleg yn Llydaw yn groesawgar iawn.

Profodd y dysgwyr ystod o weithgareddau yn Llydaw, gan gynnwys blasu bwyd newydd, prynu pysgod cregyn a gweithio gyda nhw, ymarfer sgiliau cyllell, profiad blaen tŷ, ymweld â gwneuthurwr seidr, ac ymweld â chyfleusterau cynhyrchu bwyd ar raddfa fawr. Fe wnaethant hefyd 'gyfeillio' â dysgwyr eraill yn y coleg yn Llydaw, cysgodi ei gilydd a gwneud ffrindiau newydd.

Datblygodd y dysgwyr amrywiaeth o sgiliau yn sgil yr ymweliad, megis sgiliau cogydd, cyfathrebu, gweithio fel tîm gyda'u cyfoedion a sgiliau penodol yn ymwneud â'r gweithgareddau a brofwyd ganddynt (megis coginio pysgod cregyn). Esboniodd y dysgwyr hefyd eu bod wedi cael profiad o wahanol ffyrdd o weithio, er enghraifft gan nodi bod cogyddion yn Llydaw yn rhedeg eu ceginau yn wahanol, a'u bod yn gyfrifol am y bwyty cyfan. Roedd hefyd yn brofiad diwylliannol a chymdeithasol i'r dysgwyr, gan ganiatáu iddynt ddysgu am ddiwylliant Llydaw a chwrdd â phobl newydd.

*"Doedd neb wedi rhoi cyfle i mi gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd dramor o'r blaen. Fe wnaeth pobl fy helpu, roeddwn wedi breuddwydio am wneud cysylltiad yn Ffrainc, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n perthyn."* (Dysgwr)

*'Roeddwn i wastad yn hoff o goginio ac roeddwn i eisïau datblygu gwybodaeth ddyfnach am ddulliau coginio eraill. Roeddwn i eisïau gweld sut mae'r diwydiant yn gweithredu mewn gwahanol wledydd a dysgu sgiliau newydd a manteisio ar y cyfle sydd ar gael.'* (Dysgwr)

Teimlai'r tiwtor fod y prosiect o fudd i ddelwedd y coleg hefyd, gan eu bod yn gallu dangos i'r coleg yn Llydaw sut maen nhw'n gweithio; er enghraifft, eu cyflwyno i'r campws, eu partneriaid lletygarwch, sut maen nhw'n darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff a sut maen nhw'n cyflwyno'r cwricwlwm. Roedd y prosiect yn darparu cyfleoedd da i gyfnewid gwybodaeth.

Nododd y dysgwyr yr hoffent wneud mwy o brofiad gwaith a mynd ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster Lefel 4, dod yn athro yn y pen draw a / neu barhau i weithio fel cogydd.

### 3.3 Profiadau'r staff ac effaith

---

Tynnodd cynrychiolwyr colegau sylw at ystod o weithgareddau sy'n ymwneud â'r staff ar lefel ryngwladol. Unwaith eto, mae Erasmus+ wedi bod yn rhan allweddol o'r dull hwn, gyda cholegau'n nodi bod staff wedi mynd gyda dysgwyr ar eu hymweliadau â'u lleoliadau. Mae hyn wedi caniatáu i staff feithrin perthynas glos â'u dysgwyr a chyfoethogi eu profiadau dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, gan ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd staff yn ymwneud ag ymweliadau peirianeg a mecaneg â'r Almaen, iechyd a gofal cymdeithasol yn Norwy ac arloesi yng Ngwlad y Basg. Mae'r cyfleoedd hyn hefyd yn cael eu hystyried yn ffyrdd o ddatblygu rhwydweithiau newydd ar gyfer y coleg a rhannu syniadau gyda chydweithwyr.


---

*'Mae wedi bod yn hwb i hyder y staff, gan roi technegau addysgu newydd iddyn nhw ar gyfer rhai pynciau, ymwybyddiaeth o dechnolegau newydd, er enghraifft ynni adnewyddadwy, yn ogystal â systemau cynhyrchu eraill, er enghraifft ar gyfer prentisiaethau bwyd. Rhoddodd fwy o gyfrifoldeb iddyn nhw hefyd.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

Mae Ffigur 3 isod yn dangos nifer y colegau sy'n darparu gweithgareddau ag iddynt elfen ryngwladol i'r staff. Y gweithgareddau a gynigir amlaf gan golegau yw mynd gyda dysgwyr ar brosiectau symudedd rhyngwladol, er enghraifft drwy gymryd rhan yn ymweliadau staff ColegauCymru, cyfnewidfeydd â cholegau eraill ac (i'r rhai sydd â ffocws masnachol) hyfforddi athrawon tramor yng Nghymru. Cyflwynir data ar nifer y staff sy'n elwa o'r gweithgareddau hyn yn yr Atodiad.

**Ffigur 3: Nifer y colegau sy'n darparu gweithgareddau rhyngwladol i staff yn ystod y flwyddyn academaidd**



Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=12

Mae ymweliadau astudio i staff hefyd yn cael eu cynnal o dan Gam Gweithredu Allweddol 1 Erasmus+, sy'n hyrwyddo arferion mewn perthynas â chyfnewidfeydd a chyfleoedd astudio cydweithredol. Darparodd y colegau enghreifftiau o themâu a gynhwyswyd megis datblygu'r cwricwlwm, rheoli coleg a thechnegau sicrhau ansawdd. Nod canolbwyntio ar themâu o'r fath yw sicrhau bod ymweliadau'n bwrpasol ac yn cael effaith a chaiff yr ymweliadau eu trefnu gan ColegauCymru fel rhan o'u dull consortiwm tuag at Erasmus+. Ymhlith yr enghreifftiau roedd mynd i'r Ffindir i edrych ar ddulliau gweithredu ar lythrennedd a rhifedd ac i'r Eidal i archwilio prosesau ar gyfer datblygu ethos rhyngwladol i gefnogi dysgu.

Mae yna hefyd enghreifftiau o gyfnewidfeydd dwyochrog gyda staff rhyngwladol yn dod i Gymru a cholegau Cymru yn croesawu dirprwyathau gan bartneriaid rhyngwladol e.e. 20 aelod o staff o Tsieina i edrych ar fodiwlau cyllid. Nododd sawl coleg hefyd ei fod yn cymryd rhan ym mentrau'r British Council e.e. aeth uwch arweinwyr ar ymweliadau astudio â De Affrica a Brasil. Dywedodd un coleg fod y staff yn cymryd rhan mewn cyfnewidfa EQAVET, gan weithio gyda chyfadranau eraill mewn colegau rhyngwladol yn archwilio cyfraddau cyflogaeth, mathau o gymwysterau, achrediad a strategaethau pontio i gyflogaeth i ddysgwyr.

Mae staff hefyd yn elwa ar gyfleoedd cyfnewid diwylliannol rhyngwladol a datblygu sgiliau drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol masnachol (trafodir hyn yn adran 3.4 isod). Mae'n ofynnol i staff ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wahaniaethau mewn addysgeg a'r cwricwlwm mewn gwledydd eraill a chael profiad ychwanegol mewn addysgu'n rhyngwladol. Ar gyfer colegau sydd ag ymrwymiad strategol i weithgareddau rhyngwladol masnachol, gall nifer fawr o staff gymryd rhan mewn rhyw fath o ryngweithio rhyngwladol boed drwy addysgu dramor neu drwy addysgu myfyrwyr rhyngwladol yn eu colegau eu hunain.

---

*'Roedd yr ymweliad staff â'r Eidal yn canolbwyntio'n benodol ar edrych ar ddulliau arloesol a chreadigol o ennyn diddordeb dysgwyr drwy brosiectau rhyngwladol. Roedd hefyd yn ddi-ddorol gweld pa mor gadarn mae llythrennedd a rhifedd wedi'u hymgorffori yn eu cwricwlwm AB. Mae'n ddull cyfannol iawn.'* **Cynrychiolydd SAB**

*'Ymweliadau Colegau Cymru fu'r digwyddiadau datblygu staff a'r rhwydweithio gorau i mi erioed gymryd rhan ynddyn nhw.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

### 3.4 Gweithgareddau masnachol

---

Fel y nodir yn adran 3.1 mae rhai colegau yn rhoi ffocws strategol ar ddatblygu elfen fasnachol gweithgareddau rhyngwladol ac mae sawl coleg yng Nghymru sydd â'r seilwaith a'r gallu angenrheidiol wedi datblygu canghennau masnachol cryf. Mae'r colegau hyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol fel hyfforddiant athrawon, recriwtio dysgwyr i ddilyn cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau Saesneg ar Gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru a sefydlu colegau dramor.

Er enghraifft, mae un coleg yn cynnal hyfforddiant athrawon i athrawon galwedigaethol dramor (yn enwedig yn Tsieina) sydd bellach yn hyfforddiant rhithwir ers y pandemig COVID-19. Mae hefyd wedi recriwtio tîm hyfforddi athrawon trawsgolegol i weithio dramor ar brosiect technoleg cerbydau trydan ac iddo elfen hyfforddi athrawon. Cefnogir hyn gan gyfranogiad traws-golegol i fynd i'r afael â heriau sefydliadol ac amserlennu sy'n codi o ymgysylltiad ar raddfa mor fawr.

---

*'Rydym nawr yn datblygu tîm o staff sydd wir yn dechrau deall y gwahaniaethau sy'n gysylltiedig â gweithio dramor, er enghraifft dealltwriaeth ddiwylliannol.'* **Sefydliad AB**

---

Adroddodd coleg ei fod yn cynnal nifer o weithgareddau masnachol dramor gan gynnwys ysgolion/colegau wedi'u brandio a'u hachredu. Mae'r incwm o'r gweithgaredd hwn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar elfennau eraill o weithgaredd masnachol rhyngwladol, er

enghraifft recriwtio myfyrwyr (a nodwyd y gallant fod yn heriol oherwydd nad yw gwledydd eraill bob amser yn gweld addysg bellach fel llwybr i addysg uwch), hyfforddiant TVET (e.e. sgiliau hedfan yn India), academiâu Saesneg neu chwaraeon ac ysgolion haf. Mae coleg arall yn trefnu arosiadau cartref, rhaglenni cymdeithasol rhyngwladol a thiwora drwy ysgolion haf i ddarparu incwm.

---

*'Mae diwydrwydd dyladwy yn bwysig pan fyddwch yn gweithio'n rhyngwladol, mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith cartref ac mae sicrhau ansawdd yn bwysig. Mae'n rhaid i chi weithio gydag asiantau a chanddynt enw da i ddod o hyd i fyfyrwyr. Mae sail gyfreithiol partneriaeth hefyd yn bwysig iawn felly rydyn ni'n defnyddio cyfreithwyr ac yn adolygu hynny'n rheolaidd.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

Amlygodd cynrychiolwyr o'r colegau hyn bwysigrwydd datblygu cynnig o safon i ddenu myfyrwyr ynghyd â hyrwyddo eu lleoliadau a'u hastudiaethau yng Nghymru. Mae eu canlyniadau academaidd da hefyd yn denu myfyrwyr, yn ogystal â'r potensial i gymryd rhan mewn gweithgareddau coleg allgyrsiol gan gynnwys gweithredu fel llysgenhadon i'r coleg. I'r cynrychiolwyr colegau hyn, mae recriwtio rhyngwladol yn ffordd o ryngwladoli'r cwricwlwm a'r ystafell ddosbarth a gall hyn ddod â manteision i'r garfan gyfan o fyfyrwyr.

Mae cynrychiolwyr colegau yn nodi bod recriwtio rhyngwladol bob amser yn heriol, er enghraifft bylchau mewn dealltwriaeth ddiwylliannol ac o ran y ffordd y deallir addysgeg. Nododd un cynrychiolydd coleg fod yn rhaid iddo geisio dod o hyd i ffordd o bontio'r bylchau hyn a dod o hyd i ddull hybrid. Nododd hefyd fod coleg AB yng Nghymru yn cystadlu ag ysgolion preifat ar gyfer recriwtio dysgwyr Safon Uwch rhyngwladol. Mae colegau o'r farn y byddant hefyd yn gweld niferoedd is o fyfyrwyr rhyngwladol yn dilyn y pandemig COVID-19, gan fod dysgu myfyrwyr ar-lein mewn gwlad arall yn heriol. Mae'r newidiadau yn y system fisa ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd wedi lleihau nifer y myfyrwyr rhyngwladol ac mae Brexit wedi gwaethygu'r sefyllfa hon ymhellach.

---

*'Mae maint y gystadleuaeth yn frawychus, gyda lluo o ysgolion rhyngwladol yn cael eu sefydlu dramor. Mae hefyd yn heriol rheoli dysgu cyfunol yn ystod y pandemig, pan fydd myfyrwyr yn dal i astudio dramor.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

### 3.5 Partneriaethau


---

Mae Ffigur 4 isod yn dangos nifer y colegau a nododd eu bod yn gweithio gyda gwahanol bartneriaid i gefnogi eu gweithgaredd rhyngwladol. Colegau Cymru a cholegau dramor sy'n cael eu henwi amlaf fel partneriaid gan golegau AB. Mewn trafodaethau, eglurodd colegau ymhellach eu bod wedi datblygu ystod o bartneriaethau drwy raglenni fel Erasmus+ neu drwy gyfnewidfeydd hanesyddol. Yn aml, datblygwyd y cyfnewidfeydd hanesyddol hyn o ganlyniad i fentrau diwylliannol neu addysg eraill, presenoldeb mewn cynadleddau,

cysylltiadau â chyflogwyr neu bartneriaethau pellach a ddatblygwyd drwy brosiectau eraill yr UE.

Ymhlith yr enghreifftiau mae gwaith hanesyddol gyda'r British Council, cymryd rhan yng nghyfnewidfeydd Llywodraeth Cymru a phartneriaeth â Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT) yn yr Unol Daleithiau. Hyrwyddodd ColegauCymru y cyfle i golegau yng Nghymru groesawu israddedigion o'r MIT. Cymerodd nifer o golegau ran yn y cynllun yn 2020 a chynhaliwyd y cynllun ar-lein yn 2021.

**Ffigur 4: Prif bartneriaid colegau mewn gweithgareddau rhyngwladol**



Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=10

Croesawyd y cymorth a ddarparwyd gan ColegauCymru, yn enwedig gan golegau llai fel rhan o ddull cyfunol o ymgysylltu a darparu cefnogaeth. Mae rhai colegau hefyd yn awyddus i ymgysylltu'n rhyngwladol â cholegau a gwledydd a chanddynt enw rhagorol mewn meysydd penodol, megis iechyd a gofal cymdeithasol yn Sgandinafia a pheirianneg yn yr Almaen. Nododd sawl coleg fod cyswllt â phartneriaid rhyngwladol wedi'i gynnal drwy gydol y pandemig COVID-19 drwy ddulliau rhithwir. Nododd un arall fod ei ethos Gatholig hefyd yn rhan o'r cymhelliant i ymgysylltu â gwledydd penodol megis Sbaen, yr Eidal a Ffrainc.

---

*'Ymwelodd pennaeth o goleg yn Llydaw â ni ac roedd hwn yn drefniant cyfnewid da ac yn ffordd ddefnyddiol o ddatblygu gwell ymgysylltiad rhyngwladol gan y gallai gael darlun o'r coleg a'n lleoliad, ein hethos a chyfansoddiad y myfyrwyr. Roedd yn rhyw fath o daith canfod ffeithiau a hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer iechyd a diogelwch, cysylltiadau cyflogwyr a chael syniad o gostau.'* **Cynrychiolydd SAB**

---

Serch hynny, roedd sawl coleg o'r farn bod cyfle wedi'i golli i gysylltu â chwmnïau lleol a chanddynt gysylltiadau rhyngwladol ac y dylai hyn fod yn ffocws allweddol yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol. Un enghraifft gadarnhaol oedd coleg sy'n gweithio gyda chwmni economi werdd lleol mewn partneriaeth â choleg yn y Ffindir.

Amlygodd sawl coleg fod partneriaethau ar gyfer gweithgaredd masnachol yn hanfodol i'w strategaethau rhyngwladol cyffredinol. Mae un coleg yn berchen ar nifer o is-gwmnïau preifat a chyd-fentrau gan gynnwys swyddfa yn Beijing ac mae'n rhan o weithgareddau broceriaeth ehangach rhwng y DU ac India, gan nodi ei statws a'i gyraeddiad. Mae coleg arall newydd arwyddo cytundeb 10 mlynedd gyda'i bartner addysg yn Tsieina er mwyn adeiladu ar y canfyddiad o awydd mawr am hyfforddiant galwedigaethol dramor er enghraifft ym meysydd awyrofod, peirianeg, adeiladu, gwasanaethau adeiladu.

---

*'Mae partneriaethau rhyngwladol, o ran eu natur, yn bartneriaethau risg uwch. Fodd bynnag, nid ydym yn gweld ein partneriaethau fel rhywbeth tymor byr. Teimlwn y dylai'r holl bartneriaethau fod yn rhai tymor hir a chynaliadwy'. **Cynrychiolydd SAB***

---

Amlygodd rhanddeiliaid AB ehangach a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil hon rai ystyriaethau allweddol ar gyfer sut y gall y sector AB ddatblygu ei bartneriaeth ymhellach gan weithio i gefnogi rhyngwladoli yn y dyfodol.

Dywedodd un rhanddeiliad fod AB yn aml yn cael ei ystyried yn 'ddolen goll' o ran gweithgaredd rhyngwladol gan nad oes gweledigaeth glir ar gyfer y sector cyfan oherwydd ei natur wahanol. Ystyriwyd bod hwn yn fater sy'n effeithio ar y DU gyfan. Amlinellwyd bod gofyn felly i'r sector grisialu ac uno ei weledigaeth er mwyn denu cefnogaeth a buddsoddiad gan bartneriaid. Byddai rhannu arferion da ynglŷn â phrofiad Cymru yn opsiwn cychwynol, er enghraifft, gweithio mewn partneriaeth â'r sector AU i ddenu myfyrwyr rhyngwladol i astudio am gymwysterau Safon Uwch mewn colegau yng Nghymru ac yna symud ymlaen i sefydliadau addysg uwch Cymru.

Teimlai rhanddeiliaid eraill y byddai cefnogaeth a chyfarwyddyd cryfach gan uwch reolwyr mewn perthynas â rhyngwladoli ar draws yr holl golegau yn fuddiol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gryfach ar gyfer dysgu iaith. Gwelwyd bod Erasmus+ yn plannu hedyn o ddiddordeb i rai dysgwyr a staff, gydag un partner yn nodi mai hwn yw un o'r unig lwybrau i ddangos y mewnwelediad diwylliannol y gall dysgu iaith ei ddarparu. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn ystyried bod hyd yn oed Erasmus+ yn dioddef o ddiffyg paratoi mewn perthynas â lleoliadau a diffyg strwythur o ran yr elfen iaith. Byddai gweithgareddau a phartneriaethau rhyngwladol yn y dyfodol yn elwa o ddull mwy proffesiynol, yn eu barn nhw.

Mae rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y gallai rhyngwladoli'r cwricwlwm AB drwy ganolbwyntio mwy ar ieithoedd tramor modern fod yn ffordd ymlaen i golegau. Mae angen cyrsiau byr ar gyfer dysgwyr sydd â ffocws galwedigaethol ac sy'n hyrwyddo sgiliau rhyngddiwylliannol i ddysgwyr difreintiedig. Mae rhanddeiliaid yn teimlo nad oes llawer o gyfleoedd i astudio ieithoedd tramor modern mewn AB ar yr ochr alwedigaethol, gan nad yw colegau mewn gwirionedd yn creu lle ar gyfer ieithoedd. Fe wnaethant bwysleisio y gall ieithoedd gefnogi

datblygu sgiliau allweddol ar gyfer myfyrwyr galwedigaethol fel cyfathrebu, datrys problemau a dadansoddi.

Mae dull gweithredu sy'n cwmpasu Cymru gyfan yn bwysig iawn ar gyfer y prosiectau hyn ac felly mae rhanddeiliaid yn awyddus i weithio gydag AB ledled Cymru i fodlu ieithoedd a'u gwneud yn fwy perthnasol a hygyrch. Mae prosiectau fel hyn yn darparu manteision i ddysgwyr y coleg gan gynnwys cyfleoedd rhwydweithio (mae partneriaid rhyngwladol yn aml yn mynychu'r digwyddiadau fel British Council Cymru, Institut Français a Goethe Institut), ymdeimlad o annibyniaeth a chyfleoedd i drafod astudio ieithoedd gyda myfyrwyr prifysgol sydd hefyd yn mynychu (gan ganiatáu iddynt ofyn cwestiynau am astudio a chyfleoedd yn y dyfodol).

Nododd rhanddeiliad arall gyfleoedd partneriaeth penodol i'r sector yn y dyfodol, gan gynnwys gweithio'n agosach ag adrannau'r llywodraeth (megis adran masnach a diwydiant y DU) a gwella cysylltiadau AB â diwydiannau ac allforwyr rhyngwladol, ynghyd â gweithio'n agos â Phartneriaethau Sgiliau'r DU.

### 3.6 Monitro a rhannu arferion da

---

Mae colegau fel arfer yn casglu adborth gan ddysgwyr a staff sy'n cymryd rhan mewn prosiectau symudedd rhyngwladol, yn enwedig prosiectau Erasmus+ a'r prosiectau hynny sy'n cael eu rhedeg drwy bartneriaid fel Colegau Cymru a British Council Cymru. Fel rheol, mae'n ofynnol i'r partneriaid neu'r prosiectau gasglu rhywfaint o adborth a dysgu o brosiectau o'r fath. Er bod rhai colegau'n rhannu'r dysgu hwn ymhlith cydweithwyr ac ar draws adrannau (er enghraifft drwy annog dysgwyr neu staff i wneud cyflwyniad ar eu profiadau), mae eraill yn casglu'r wybodaeth hon yn bennaf at ddibenion cydymffurfio.

Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr colegau yn cytuno, fodd bynnag, y gellid gwella'r ffordd yr oedd gwybodaeth yn cael ei lledaenu, gan fod cyfleoedd cyfyngedig ar waith i rannu'r hyn a ddysgir gyda chydweithwyr. Dywedodd un cynrychiolydd *'mae staff yn dysgu llawer am addysgu a dysgu mewn gwahanol gyd-destunau, mae yna brofiad cyffredin ond weithiau mae'n anodd cynnal hyn.'* Gwelwyd mai diffyg cyfleoedd a strwythurau ffurfiol oedd y broblem er bod sawl coleg serch hynny wedi cynnig enghreifftiau o staff yn cael eu hannog i ledaenu canfyddiadau drwy gyflwyniadau e.e. ymweliad â chanolfan arloesi yng Ngwlad y Basg.

O'r herwydd, mae lle i wella'r ffordd y mae'r sector AB yn ei gyfanrwydd yn coladu, yn defnyddio ac yn rhannu'r hyn a ddysgir o weithgareddau rhyngwladol. Yn benodol, roedd rhai colegau'n cydnabod y gallent wella'r ffordd y maent yn lledaenu gwersi ac arfer da o weithgareddau rhyngwladol ar draws y sector, er enghraifft drwy gynadleddau neu gymunedau ymarfer. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ffordd effeithiol o gefnogi colegau sydd am ddatblygu eu gweithgareddau eu hunain. Mae rhannu gwersi a phrofiadau yn ehangach ac yn systematig hefyd yn cael ei ystyried yn ffordd o annog staff a dysgwyr i ymddiddori mewn gweithgareddau rhyngwladol.




*'Nid yw'r sector gyda'r gorau am ddweud pa wahaniaeth a wnawn, gan gynnwys yn rhyngwladol.'* **Cynrychiolydd SAB**

### 3.7 Y gofynion o ran cymorth yn y dyfodol a gwella rhyngwladoli

Dangosodd yr ymatebion i'r arolwg y byddai colegau yng Nghymru yn gwerthfawrogi ystod eang o gymorth i ddatblygu gweithgareddau rhyngwladol. Dangosodd y colegau ddiddordeb mewn cael cymorth ar gyfer cyfleoedd cyfoethogi (megis cymorth i ddatblygu cyfleoedd cwricwlwm) ynghyd â chymorth ar gyfer cyfleoedd masnachol.

**Ffigur 5: Y cymorth sydd ei angen ar golegau i barhau i ddatblygu gweithgareddau rhyngwladol**



Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=11

Yn ystod trafodaethau â chynrychiolwyr colegau, nodwyd cyfres o feysydd allweddol ar gyfer cymorth a datblygiad yn y dyfodol.

Nododd rhai colegau y dylai codi statws a hyrwyddo sector AB Cymru yn ei gyfanrwydd yn rhyngwladol fod yn flaenoriaeth i Colegau Cymru er mwyn cefnogi ymgysylltu rhyngwladol, yn arbennig eu gweithgareddau cyfoethogi. Gallai hyn gynnwys datblygu enw da y sector dramor a gweithredu fel llais i'r sector mewn partneriaethau â llywodraethau eraill a sectorau AB. Nododd rhai colegau mai un her i'w goresgyn yw'r canfyddiad o'r sector AB yn gyffredinol, sy'n cael ei ystyried yn llai datblygedig na'r sector AU, yn enwedig o ran ymgysylltu rhyngwladol.

Nododd y colegau hefyd fod gan Gymru fframweithiau cyflawni achrededig o ansawdd da felly mae cyfle i nodi lle y byddai'r mathau hyn o sgiliau sector-benodol a chyflogadwyedd

yn werthfawr dramor. Byddai'r colegau felly'n gwerthfawrogi cymorth i dynnu sylw at y gwaith rhyngwladol sy'n cael ei wneud gan y sector gan *"godi ein statws fel cenedl fach, ystwyth sy'n meddwl yn arloesol."* Gall hyn gynnwys canolbwyntio ar wledydd penodol lle mae gan Lywodraeth Cymru neu bartneriaid eraill fel y British Council neu Brifysgolion Cymru bartneriaethau ar waith eisoes neu wledydd sydd ag arbenigedd penodol mewn rhai sectorau.

Yn gysylltiedig â hyn, amlygodd rhai colegau yr angen i ddangos gwerth ac effaith gweithgareddau rhyngwladol ar draws y sector yn well. Mae cyfle i gasglu gwybodaeth am effaith rhyngwladoli ar golegau yng Nghymru a'u dysgwyr - gan gynnwys datblygu astudiaethau achos sy'n dangos arfer da - y gellir eu rhannu ar draws y sector. Gwelir hyn fel ffordd o gefnogi colegau i sicrhau bod cydweithwyr yn cefnogi hyn, gan roi syniadau i golegau ar sut i drefnu gweithgareddau rhyngwladol, ac ysbrydoli staff a dysgwyr i gymryd rhan.

Roedd datblygu partneriaethau rhyngwladol a chyfleoedd rhwydweithio hefyd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Mae colegau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth y mae ColegauCymru yn ei darparu wrth nodi partneriaid rhyngwladol (gan gynnwys colegau, cyflogwyr ac eraill) sydd wedi'u lleoli yn y DU a thramor. Byddai'r colegau'n gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus i ddatblygu partneriaethau, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio ehangach fel seminarau a chynadleddau lle y gall colegau a phartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol adeiladu perthnasoedd. Cyfeiriwyd at gefnogaeth ar gyfer symudedd tuag i mewn drwy Lywodraeth Cymru fel ffynhonnell ariannu bosibl ar gyfer y dull rhwydweithio hwn.

Yn yr un modd, mae'r colegau hefyd yn gwerthfawrogi rôl rhannu gwybodaeth ColegauCymru a hoffent weld hyn yn parhau. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am weithgareddau rhyngwladol parhaus ac am gyfleoedd i ariannu neu gymryd rhan mewn gwaith rhyngwladol.

Un her allweddol sy'n wynebu rhai colegau yw diffyg adnoddau i gynllunio gweithgareddau rhyngwladol ar raddfa fawr yn effeithiol ac anawsterau wrth weinyddu'r gweithgareddau hyn. Nododd y colegau hyn fod gweithgareddau rhyngwladol yn aml yn gofyn am lawer o adnoddau, yn enwedig os ydynt yn weithgareddau newydd. Mae rhai o'r heriau hyn yn heriau mewnol i golegau ond mae colegau'n gwerthfawrogi rôl ColegauCymru wrth gyfyngu ar heriau o'r fath lle bo hynny'n bosibl - er enghraifft drwy reoli dull consortiwm Erasmus+.

Byddai'r colegau yn gwerthfawrogi unrhyw gefnogaeth a all leihau baich gweinyddol a rheolaethol gweithgareddau rhyngwladol (yn enwedig mewn colegau nad oes ganddynt dîm rhyngwladol penodol) a gallai hynny gynyddu lefelau ymgysylltu. Mae'r colegau o'r farn bod cyfle i ddarparu rhagor o gefnogaeth yn y maes hwn, i nodi tir cyffredin er mwyn hwyluso gweithgareddau rhyngwladol ar y cyd ac annog rhannu gwybodaeth.

Awgrymodd un coleg fod rôl i ColegauCymru o ran cefnogi ceisiadau consortiwm ar gyfer cyflwyno TVET dramor, gan fod gwahoddiadau i dendro yn aml ar raddfa rhy fawr i golegau unigol neu fod angen cyfuniad mwy o sgiliau arnynt. Fodd bynnag, roedd y colegau hefyd yn cydnabod bod cystadleuaeth weithiau yn y sector (yn enwedig o fewn agweddau masnachol) a all rwystro cydweithredu o'r fath.

Rhoddwyd cydlynu dull consortiwm ar lefel sector tuag at gynllun newydd Turing fel un o'r prif enghreifftiau o sut y gallai ColegauCymru gefnogi'r sector i weithio ar y cyd (er i un coleg nodi na fyddai'n ymuno â chais consortiwm). Yn gyffredinol, mynegodd y colegau farn gadarnhaol am rôl ColegauCymru wrth gefnogi cais consortiwm ar gyfer Erasmus+ ac roeddent yn teimlo y byddai'n briodol parhau â'r rôl hon gyda chynllun Turing. Mynegodd y colegau farn gadarnhaol hefyd am Raglen Turing a'i photensial i ymgysylltu'n fyd-eang er bod rhai wedi mynegi amheuon ynghylch y diffyg dwyochredd presennol a ragwelir.

## 4. Casgliadau ac argymhellion

---

Mae darlun cymysg o ran y lefelau persennol o ymgysylltu rhyngwladol mewn colegau AB ledled Cymru. Nododd y mwyafrif fod ganddynt strategaeth ryngwladol, fodd bynnag, nid oes gan bron i draean y colegau strategaeth o'r fath ar hyn o bryd. Mae pedwar coleg yn blaenoriaethu gweithgaredd rhyngwladol masnachol tra bod eraill yn canolbwyntio ar gyfoethogi dysgwyr, gyda sawl un yn nodi mai prin iawn yw eu hymgysylltiad presennol a'u bod yn canolbwyntio yn lle hynny ar eu cymuned a'u dysgwyr.

Yn gyffredinol, adroddwyd bod awydd cynyddol ar draws mwyafrif y colegau i ymgysylltu'n rhyngwladol, er gwaethaf yr heriau canfyddedig sy'n gysylltiedig â hynny. Mae hyn yn cynnig cyfle i'r sector AB gyfrannu at amcanion rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Canolbwyntio ar weithgareddau masnachol a chyfoethogi

---

Nododd y colegau y mae eu ffocws masnachol yn sail i'w strategaeth ryngwladol eu bod yn canolbwyntio ar gyfranogiad uwch reolwyr ac agwedd 'o'r brig i lawr' tuag at ymgysylltu rhyngwladol. Mae nodweddion cyffredin eraill yn cynnwys canoli prosesau ac adnoddau, ynghyd â chyfuno gweithgareddau cyfoethogi masnachol a dysgwyr; gwneir hyn drwy symudedd dysgwyr a staff, a rhaglenni recriwtio a dysgu.

Mae colegau eraill yn canolbwyntio llawer mwy ar yr '*awydd i ehangu gorwelion*' dysgwyr, a'r diffyg seilwaith, capasiti neu impetws gan eu timau uwch-reolwyr i ddatblygu gweithgareddau masnachol. Yn lle hynny, mae'r colegau hyn yn canolbwyntio ar ymgysylltu yn seiliedig ar weithgareddau llwyddiannus rhai cyfadrannau, sydd unwaith eto'n cynnwys rhaglenni symudedd myfyrwyr a staff a phartneriaethau dwyochrog hirsefydlog gyda cholegau dramor.

### 4.2 Effaith ar ddysgwyr a staff

---

Adroddwyd am effeithiau cadarnhaol rhaglenni symudedd rhyngwladol ar hyder, sgiliau cyfathrebu a thwf personol dysgwyr. Tynnodd colegau sylw hefyd at welliannau mewn sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud â'r cyrsiau o'u dewis, datblygu sgiliau sector-benodol, a datblygu sgiliau meddal fel datrys problemau a dadansoddi. Mae mwy o ddealltwriaeth ryngddiwylliannol yn nodwedd bwysig arall, gydag un coleg yn nodi manteision systemau cyfeillio gyda cholegau partner i gefnogi integreiddio.

Tynnwyd sylw hefyd at fanteision dwyochredd, gyda myfyrwyr sy'n dod i Gymru i astudio yn dod ag ieithoedd newydd a syniadau cyfnewid diwylliannol gyda nhw a chael eu lletya yn eu cymunedau lleol. Mae hyn yn cysylltu'n agos â chydabod y rôl allweddol y mae myfyrwyr rhyngwladol yn ei chwarae wrth gyfoethogi amrywiaeth ddiwylliannol Cymru ac economi allforio Cymru, a amlygwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru *Cysylltiadau Rhyngwladol drwy Ddiplomyddiaeth Gyhoeddus a Phŵer Meddal 2020-2025*.

Ceir rhai effeithiau hefyd o ran dysgu iaith dramor fodern, fodd bynnag roedd y rhanddeiliaid yn credu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi sgiliau iaith cyn, yn ystod ac ar ôl rhaglenni cyfnewid er mwyn gwella profiadau dysgwyr. Ymhlith y rhwystrau i ddatblygu

cyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr rhyngwladol mae diffyg capasiti, logisteg cymhleth ac iechyd a diogelwch. Cyfeiriwyd at ofynion y cwricwlwm hefyd fel mater pellach, gyda diffyg hyblygrwydd a phryderon ynghylch colli amser addysgu.

Adroddwyd hefyd am effeithiau cadarnhaol ar y staff. Mae cyfnewidiadau symudedd rhyngwladol yn cael eu hystyried yn gyfleoedd i gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain mewn meysydd fel datblygu'r cwricwlwm, rheoli coleg a thechnegau sicrhau ansawdd ynghyd â bondio â'u dysgwyr. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol masnachol yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y staff o wahaniaethau o ran addysgeg a chwricwlwm mewn gwledydd eraill a gall ganiatáu iddynt gael profiad o addysgu'n rhyngwladol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu at adeiladu rhwydweithiau newydd ar gyfer colegau, gan ganiatáu i staff rannu syniadau â chydweithwyr a sefydlu cyfnewidiadau dwyochrog.

Mae cysylltiad rhwng y canfyddiadau hyn ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfnewidfydd myfyrwyr ac academiaidd, a fydd yn cefnogi'r uchelgais i dyfu economi Cymru. Maent hefyd yn cyfrannu at nodau *Cymru yn y Byd* o ddatblygu a chynnal perthnasoedd dwyochrog ac amlochrog effeithiol a chydweithredu'n rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth, arfer gorau a dysgu gan gymheiriaid.

### 4.3 Manteision a heriau masnachol

---

Nododd sawl coleg fanteision masnachol cryf yn sgil gweithgareddau rhyngwladol fel hyfforddiant athrawon, recriwtio dysgwyr i astudio cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau ESOL yng Nghymru yn ogystal â sefydlu colegau dramor. Mae'r ymgysylltiad hwn ar raddfa fawr yn gofyn am gyfranogiad traws-golegol i fynd i'r afael â heriau sefydliadol ac amserlennu ac i gefnogi recriwtio myfyrwyr yn wyneb cystadleuaeth gref. Mae gweithgareddau masnachol eraill yn cynnwys hyfforddiant TVET, academiâu Saesneg neu chwaraeon ac ysgolion haf.

Mae'r math hwn o ymgysylltu yn gofyn am gapasiti, buddsoddiad a dealltwriaeth ryngddiwylliannol i ddatblygu dull hybrid. Ymhlith yr heriau y mae colegau yn eu hwynebu i ehangu eu darpariaeth a'u hymgysylltiad rhyngwladol mae gofynion fisa newydd ar gyfer myfyrwyr, Brexit, y pandemig COVID-19 a'r ffaith bod trefnu gweithgaredd rhyngwladol yn dreth ar adnoddau.

### 4.4 Partneriaethau rhyngwladol

---

Mae'r colegau wedi datblygu ystod o bartneriaethau drwy raglenni fel Erasmus+ neu fentrau diwylliannol neu addysg, mynychu cynadleddau, cysylltiadau â chyflogwyr neu bartneriaethau pellach a ddatblygwyd drwy brosiectau eraill yr UE. Mae rhai colegau hefyd yn ymgysylltu'n rhyngwladol â cholegau a gwledydd a chanddynt enw rhagorol mewn meysydd penodol, megis iechyd a gofal cymdeithasol. Croesawyd y gefnogaeth a ddarparwyd gan ColegauCymru, yn enwedig gan golegau llai fel rhan o ddull cyfunol o ymgysylltu a chefnogi.

Serch hynny, roedd sawl coleg o'r farn bod cyfle wedi'i golli i gysylltu â chwmnïau lleol a chanddynt gysylltiadau rhyngwladol ac y dylai hyn fod yn ffocws allweddol yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol. Roedd rhanddeiliaid ehangach hefyd o'r farn y gall y sector AB ddatblygu ei bartneriaeth ymhellach i gefnogi rhyngwladoli yn y dyfodol. Mae hyn yn gofyn i'r sector grisialu ac uno ei weledigaeth er mwyn denu cefnogaeth a buddsoddiad gan bartneriaid. Byddai cefnogaeth a chyfeiriad cryfach gan uwch reolwyr ar draws yr holl golegau o ran rhyngwladoli hefyd yn fuddiol ynghyd â monitro a gwerthuso effaith yn fwy effeithiol er mwyn gwella atebolrwydd.

Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn y byddai gweithgareddau a phartneriaethau rhyngwladol yn y dyfodol yn elwa o ddull gweithredu mwy proffesiynol, yn enwedig o ran hyrwyddo ieithoedd tramor modern a sgiliau rhyngddiwyllyannol i ddysgwyr galwedigaethol. Ymhlith y cyfleoedd partneriaeth posibl eraill i'r sector yn y dyfodol mae gweithio'n agosach ag adrannau'r llywodraeth (megis adran masnach a diwydiant y DU) a gwella cysylltiadau AB â diwydiannau ac allforwyr rhyngwladol, ynghyd â gweithio'n agos â Phartneriaeth Sgiliau'r DU.

Ystyriwyd y byddai hyn yn sicrhau bod y sector AB yn cael cyfle i chwarae ei ran ochr yn ochr ag addysg uwch wrth hyrwyddo brand Cymru Wales a hyrwyddo Cymru fel lle ar gyfer arloesi a chyfleoedd.

#### **4.5 Cynnydd a chefnogaeth ar gyfer rhyngwladoli yn y dyfodol**

---

Mae lle, felly, i wella'r ffordd y mae'r sector AB yn ei gyfanrwydd yn coladu, yn defnyddio ac yn rhannu'r hyn a ddysgir o weithgareddau rhyngwladol. Roedd cynrychiolwyr y colegau yn credu y gellid gwella'r ffordd yr oedd gwybodaeth yn cael ei lledaenu, gan fod cyfleoedd cyfyngedig ar waith i rannu'r hyn a ddysgir gyda chydweithwyr. Ystyriwyd mai diffyg cyfleoedd a strwythurau ffurfiol oedd y broblem ac roedd cymunedau dysgu yn cael eu hystyried yn opsiwn posibl i wella'r strwythurau hyn. Mae rhannu gwersi a phrofiadau yn ehangach ac yn systematig hefyd yn cael ei ystyried yn ffordd o annog staff a dysgwyr i ymddiddori mewn gweithgareddau rhyngwladol yn y dyfodol.

Dangosodd y colegau ddiddordeb mewn cael cymorth ar gyfer cyfleoedd cyfoethogi (megis cymorth i ddatblygu cyfleoedd cwricwlwm) ynghyd â chymorth ar gyfer cyfleoedd masnachol. Nododd rhai colegau y dylai codi statws a hyrwyddo sector AB Cymru yn ei gyfanrwydd yn rhyngwladol fod yn flaenoriaeth i Golegau Cymru. Gallai hyn gynnwys datblygu enw da y sector dramor a gweithredu fel llais i'r sector mewn partneriaethau â llywodraethau tramor eraill a sectorau AB. Mae hyn eto'n cysylltu â galwadau rhanddeiliaid am weledigaeth sy'n uno'r sector.

Byddai'r colegau yn gwerthfawrogi unrhyw gefnogaeth a all leihau baich gweinyddol a rheolaethol gweithgareddau rhyngwladol (yn enwedig mewn colegau nad oes ganddynt dîm rhyngwladol penodol) a gallai hynny gynyddu lefelau ymgysylltu. Mae'r colegau o'r farn bod cyfle i nodi tir cyffredin er mwyn hwyluso gweithgareddau rhyngwladol ar y cyd ac annog rhannu gwybodaeth. Gallai hyn gynnwys cefnogi ceisiadau consortiwm ar gyfer cyflwyno TVET a rhaglen Turing. Serch hynny, cydnabuwyd bod cystadleuaeth yn y sector ynghylch agweddau masnachol a all weithiau rwystro cydweithredu o'r fath.

Mae colegau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth y mae ColegauCymru yn ei darparu o ran nodi partneriaid rhyngwladol (gan gynnwys colegau, cyflogwyr ac eraill) sydd wedi'u lleoli yn y DU a thramor. Byddai'r colegau'n gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus i greu partneriaethau, yn ogystal â chyfluoedd rhwydweithio ehangach. Gall hyn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau i gynllunio gweithgareddau rhyngwladol ar raddfa fawr yn effeithiol ac anawsterau wrth weinyddu'r gweithgareddau hyn. Byddai fframwaith cyflawni i nodi sgiliau sector-benodol a chyflogadwyedd yn werthfawr ac yn dangos gwerth ac effaith gweithgareddau rhyngwladol ar draws y sector a'r potensial i ymgysylltu'n fyd-eang yn y dyfodol.

## 4.6 Argymhellion

---

- Dylai ColegauCymru weithio gyda cholegau a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol i'r sector AB yng Nghymru. Dylai'r weledigaeth hon dynnu sylw at:
  - y manteision a'r buddion i golegau yn sgil ymgysylltu rhyngwladol a phartneriaethau dwyochrog;
  - effeithiau posibl rhyngwladoli ar addysgu a dysgu;
  - y cyfluoedd i wella dysgu ieithoedd drwy ryngwladoli.
- Mae cefnogaeth a chyfeiriad cryfach gan uwch reolwyr yn elfen hanfodol o ymgysylltu rhyngwladol. Dylai ColegauCymru weithio gyda phenaethiaid colegau i hyrwyddo eu gweledigaeth ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol ar draws y sector.
- Dylai ColegauCymru barhau i weithio gydag uwch dimau rheoli colegau i fynd i'r afael â heriau o ran diffyg cefnogaeth weinyddol a chapasiti i gefnogi ymgysylltu rhyngwladol. Gallai rhannu gwybodaeth, cynigion cyllido ar y cyd a phartneriaethau ar draws y sector oll gyfrannu at gefnogi colegau.
- Dylai ColegauCymru barhau i hwyluso gweithgareddau rhyngwladol ar y cyd gan gynnwys cefnogi ceisiadau consortiwm ar ran y sector AB. Gallai hyn leihau'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu rhyngwladol. Mae'r Rhaglen Turing yn rhoi cyfle cynnar i barhau i ddatblygu'r model gweithio hwn.
- Dylid annog a chefnogi colegau i gysylltu â chwmnïau lleol sydd â chysylltiadau rhyngwladol. Dylai hwn fod yn ffocws allweddol i'r sector yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, yn unol â strategaethau llywodraeth Cymru a'r DU ar gyfer allforion.
- Fel rhan o'i strategaeth ryngwladol arfaethedig, dylai ColegauCymru gynhyrchu fframwaith cyflawni i nodi sgiliau sector-benodol a sgiliau cyflogadwyedd a fyddai'n werthfawr ar gyfer twf economaidd Cymru.

- Dylai Colegau Cymru weithio gyda cholegau i ddatblygu prosesau monitro a gwerthuso cyffredin ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu rhyngwladol. Byddai hyn yn cyfrannu at ddarparu sylfaen dystiolaeth gryfach i ddangos eu gwerth a'u heffaith.



## Atodiad: Data ar symudedd staff a myfyrwyr

**Tabl 1: Nifer y myfyrwyr sy'n elwa o weithgareddau ag elfen ryngwladol yn ystod blwyddyn academaidd**

<i>Colegau</i>	1	2*	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12
Dysgwyr galwedigaethol sy'n gwneud Erasmus+		30	50	150	le		50-60	20		100	Tua 10	140
Dysgwyr galwedigaethol eraill	4			50			20-30	101				40
Dysgwyr Ieithoedd Tramor Modern Safon Uwch				40		20						
Dysgwyr Safon Uwch eraill							40-50	2				
Dysgwyr sy'n ymwneud â mentrau rhyngwladol penodol fel Cymru dros Affrica												
Ymgysylltu â dysgwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru		5		30		**						1000+

Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=12

\* Yn ogystal, 2 gyfle lleoliad gwaith i ddysgwyr rhyngwladol

\*\* Mae dysgwyr rhyngwladol y coleg wedi'u hintegreiddio i'r prif gorff o fyfyrwyr ac o ganlyniad bydd y mwyafrif yn ymgysylltu â dysgwyr rhyngwladol.

**Tabl 2: Nifer y colegau sy'n elwa o weithgareddau rhyngwladol i staff yn ystod y flwyddyn academaidd**

<i>Colegau</i>	1	2*	3	4	5	6	7	8	9	10	11**	12
Cyfnewidiadau â cholegau eraill			3	5	le		15	20	5			2
Mynd gyda dysgwyr ar brosiectau symudedd rhyngwladol		8	10	60	le		15	2		45		5
Ymweliadau astudio	1			20			5	3				
Addysgu dysgwyr rhyngwladol		8		10			25-30					50

Hyfforddi athrawon dramor							10	100				
Hyfforddi athrawon tramor yng Nghymru			10	5			5	25				3

Ffynhonnell: Arolwg rhyngwladoli, n=12

\* Yn ogystal â hynny, 8 sy'n ymgysylltu â dysgwyr lleoliad gwaith.

\*\* Nid yw'r niferoedd yn cael eu monitro'n ganolog ac maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.